Buffy Williams AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

14 Ionawr 2026

Annwyl Buffy

Diolch am y cyfle i adolygu ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2024 – 2025 yn sesiwn graffu'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr. Rydym yn croesawu'r cyfle i fod yn dryloyw yn ein gwaith ac yn gwerthfawrogi pob cyfle i ymgysylltu â'r Pwyllgor yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Hoffem ddarparu rhywfaint o wybodaeth bellach mewn perthynas â phwyntiau a godwyd yn y sesiwn graffu.

**Data cymwysterau**

Yn y sesiwn graffu gofynnwyd am rywfaint o wybodaeth fanwl am nifer a chategori'r cymwysterau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru ac fe'u rhestrwyd naill ai'n 'Gymeradwy', h.y. wedi'u datblygu i fodloni paramedrau dylunio a osodwyd gennym ni ac i bob pwrpas wedi'u 'gwneud-i-Gymru', neu 'Dynodedig', h.y. fel arfer wedi eu datblygu i fodloni gofynion yn Lloegr ond ar gael yn ehangach.

Rydym yn gobeithio bod yr wybodaeth ganlynol yn bodloni'r cais am ragor o wybodaeth (data ar 5/1/2026):

| | |
|---|---|
| Nifer y cyrff dyfarnu cydnabyddedig | 85 |
| Cyfanswm nifer y cymwysterau a restrir ar Cymwysterau yng Nghymru (Cymeradwy, Dynodedig ac Arall) | 8626 |
| Nifer y cymwysterau Cymeradwy | 195 |
| Nifer y cymwysterau Cymeradwy a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hon (gan gynnwys y rhai i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2027) | 372 |
| Nifer y cymwysterau Dynodedig i ddysgwyr newydd | 2631* |

*I roi hyn yn ei gyd-destun, roedd 6969 o gymwysterau Dynodedig ar 31/8/2018. Mae nifer y cymwysterau Dynodedig wedi gostwng dros amser wrth i gymwysterau Cymeradwy eu disodli (yn aml ar sail aflinol h.y. gall cyfres fach o gymwysterau Cymeradwy ddisodli nifer fawr o gymwysterau Dynodedig). Hefyd, bu gostyngiad naturiol yn nifer y cymwysterau Dynodedig dros amser wrth i gymwysterau diangen neu ar ddarfod gael eu gwaredu o'r farchnad.

**TAAU Adfer Natur a TGAU Hanes Naturiol**

Yn ystod y sesiwn graffu cafwyd cais penodol am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r cymhwyster TGAU newydd mewn Hanes Naturiol sy'n cael ei ddatblygu yn Lloegr. Yn ein hymateb fe wnaethom dynnu sylw at ddatblygiad parhaus y cymhwyster TAAU mewn Adfer Natur. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am ddatblygiad y cymhwyster TAAU mewn Adfer Natur yma yng Nghymru yn ogystal â datblygiadau yn Lloegr.

Yng Nghymru, rydym eisoes yn datblygu cymhwyster TAAU mewn Adfer Natur, rydym yn disgwyl iddo fod ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2027. Nod y cymhwyster yw rhoi cyflwyniad deniadol ac ymarferol i ddysgwyr am egwyddorion ac arferion adfer natur. Mae hyn yn cynnwys arferion gwaith cynaliadwy mewn amgylcheddau morol a thirol, neu'r ddau. Nid ydym wedi gofyn am unrhyw gynnwys penodol fel rhan o'r Meini Prawf Cymeradwyo ond rydym yn disgwyl gweld cynnwys wedi'i nodi mewn manyleb ddrafft a fydd yn cael ei gyflwyno i ni ei adolygu fel rhan o'n proses gymeradwyo. Mae'n ofynnol i Agored Cymru, sef yr unig gorff dyfarnu sy'n datblygu'r cymhwyster TAAU ar hyn o bryd, ymgysylltu ag ysgolion a rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu cynnwys.

Rhaid asesu o leiaf 30% o gynnwys y cymhwyster a'r radd derfynol yn allanol (wedi'i osod a'i farcio gan y corff dyfarnu) a rhaid asesu o leiaf 30% o'r cynnwys a'r radd derfynol drwy sgiliau ymarferol. Bydd y cymhwyster TAAU yn cael ei raddio fel a ganlyn: Lefel 1 Llwyddo, Lefel 1 Teilyngdod, Lefel 2 Llwyddo, Lefel 2 Teilyngdod, neu Lefel 2 Rhagoriaeth*

Rydym yn cynnal arolygon blynyddol gydag ysgolion i ddeall eu defnydd tebygol o gymwysterau newydd gan gynnwys y cymhwyster TAAU hwn.

Ym mis Mehefin 2020, lansiodd y corff dyfarnu OCR ymgynghoriad mewn ymateb i'r alwad am ddatblygu cymhwyster TGAU mewn Hanes Naturiol i Loegr. Bwriad yr ymgynghoriad oedd helpu i lunio syniadau cynnar am sut y gallai’r cymhwyster TGAU mewn Hanes Naturiol edrych. Ceisiodd OCR farn ar bwrpas Hanes Naturiol ac archwilio pa themâu allweddol fel cadwraeth, y byd cynnar, ac astudio fflora a ffawna y dylid eu cynnwys mewn cymhwyster.

Cafwyd cadarnhad ym mis Mawrth 2025 y gallai datblygiad TGAU Hanes Naturiol symud ymlaen. OCR yw'r unig gorff dyfarnu sy'n bwrw ymlaen â hyn ar hyn o bryd ac maen nhw’n rhoi diweddariadau yma: GCSE Natural History Hub. Bydd angen i Adran Addysg San Steffan ymgynghori ar y cynnwys sy’n cael ei gynnig ar gyfer y cymhwyster TGAU Hanes Naturiol. Nid oes dyddiad wedi'i bennu eto ar gyfer hyn. Yna bydd angen i Ofqual ymgynghori ar baramedrau dylunio ar gyfer y TGAU newydd, felly bydd peth amser cyn iddo gael ei gyflwyno yn Lloegr.

Disgwylir i gynnwys y cymhwyster ganolbwyntio'n fras ar fywyd gwyllt Prydain, ecosystemau, yn ogystal â heriau byd-eang fel newid hinsawdd, bioamrywiaeth a chynaliadwyedd. Disgwylir i'r model asesu gynnwys cyfuniad o arholiadau ysgrifenedig ac asesiadau gwaith maes ymarferol, gan adlewyrchu pwyslais y pwnc ar ddealltwriaeth ddamcaniaethol ac ymgysylltu ymarferol â natur.

Gobeithiwn fod yr wybodaeth yn y llythyr hwn yn ddefnyddiol ac yn diwallu anghenion y Pwyllgor. Fodd bynnag, rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.

Yn gywir





Paul Bevan
Cadeirydd

Philip Blaker
Prif Weithredwr